**Crynodeb**

**Cyfarfod**
19/03/2026

**Rhif Cyfeirnod**
Medr/26/Ag16

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

**Cofnodion cymeradwy 16eg cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2026 yn Swyddfa Medr, Cwr y Ddinas, Caerdydd.**

**Yn bresennol:**
**Aelodau'r Bwrdd:**
Yr Athro a'r Fonesig Julie Lydon (Cadeirydd)
James Owen (Prif Weithredwr)
Yr Athro David Sweeney (Dirprwy Gadeirydd)
Yr Athro Aaqil Ahmed (ar-lein)
Daniel Beard
James Davies
Cerys Furlong
Jeff Greenidge
Estelle Hart
Rob Humphreys
Stephen Marston
Yr Athro Chris Millward
Deio Owen
Jayne Woods

**Staff:**
Rhian Edwards (Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi)
Bethan Evans (Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio a Chyllido)
Steve Williams (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Chynllunio Corfforaethol)
Dr Ewen Brierley (Cyfarwyddwr, Rheoleiddio) [eitemau 7 ac 8]
Andrew Pickford (Pennaeth Cydymffurfiaeth Darparwyr) [eitem 7]
Giles Cutler (Prif Swyddog Ariannol) [eitemau 9 a 10]
Geoff Hicks (Cyfarwyddwr, Datblygu, Buddsoddi a Pherfformiad) [eitemau 9 a 10]
Richard Arnold (Pennaeth Cyllid) [eitem 9]
Gareth Lanagan (Pennaeth Buddsoddi a Monitro Addysg Drydyddol) [eitem 9 yn unig]
Fran Hill (Prif Swyddog Gweithredu) [eitemau 10, 17 a 18]
Meg Hughes (Rheolwr Materion Cyhoeddus ac Allanol) [eitemau 17 a 18]
Rhys Davies (Pennaeth Cyfathrebu) [eitemau 17 a 18]

**Ymwelwyr:**
Rhodri ab Owen, Camlas [eitem 17]
Sophie Douglas, Llywodraeth Cymru [eitem 18]
Jasmin Kaszubowska, Llywodraeth Cymru [eitem 18]
Ruth Meadows, Llywodraeth Cymru [eitem 18]
David Morris, Llywodraeth Cymru [eitem 18]

**Ymddiheuriadau:**
Dr Gwenllian Lansdown Davies
Orla Killian-Jones

**1. Sylwadau rhagarweiniol a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr arsylwyr i'r cyfarfod.

1.2 Nododd Jayne Woods ei bod wedi cael ei phenodi i Fwrdd Dysgu o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

**2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026**

2.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2026. Gwnaeth y Bwrdd sylwadau cadarnhaol ar ei ymweliad â Choleg Caerdydd a'r Fro, gan nodi gwerth ymgysylltu â dysgwyr a staff sefydliadau.

**3. Materion sy'n codi a chamau gweithredu**

3.1 Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd ar faterion a oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol, a nodwyd y cynnydd a oedd wedi'i wneud.

**4. Adroddiad y Cadeirydd**

4.1 Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar weithgareddau diweddar y Cadeirydd, a nodwyd y gweithgarwch parhaus i ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys trafodaethau ynghylch llywodraethu addysg uwch.

**Golygiad:** Cadwyd cynnwys yn ôl am i wybodaeth gael ei rhoi yn gyfrinachol.

**5. Diweddariad gan Gadeiryddion Pwyllgorau**

5.1 Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau gan ei bwyllgorau.

5.2 Tynnodd diweddariad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg sylw at ystyriaeth i faterion yn ymwneud â goruchwyliaeth ariannol, sicrwydd sefydliadol a chapasiti rheoleiddiol. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd cynnal goruchwyliaeth reoleiddiol a gwaith ymgysylltu effeithiol ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol.

5.3 Nododd diweddariad y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi weithgarwch ymgysylltu â darparwyr a oedd i ddod.

5.4 Tynnodd diweddariad y Pwyllgor Ansawdd sylw at gynnydd o ran datblygu arolwg dysgwyr a mesurau perfformiad ar gyfer y sector addysg drydyddol gyfan er mwyn helpu i ddeall deilliannau dysgwyr. Croesawodd y Bwrdd y cyfleoedd roedd y gwaith hwn yn eu cynnig.

**Golygiad:** Cadwyd cynnwys manwl yn ôl lle roedd yn ymwneud â materion masnachol sensitif neu wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

## 6. Adroddiad y Prif Weithredwr

6.1 Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Bwrdd, a nodwyd diweddariadau ar amrywiaeth o faterion gweithredol a strategol, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr, dyraniadau cyllid, cynaliadwyedd ariannol yn y sector a dull Medr o gyhoeddi ystadegau a gwybodaeth reoli.

6.2 Trafododd y Bwrdd y diweddariadau a roddwyd, a nododd y gwaith a oedd yn dal i fynd rhagddo i weithredu'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) a'r goblygiadau i raglen ddiwygio Medr yn y dyfodol.

## 7 Fframwaith Rheoleiddio

7.1 Ystyriodd y Bwrdd argymhellion ynghylch fframwaith rheoleiddio newydd Medr.

7.2 Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod wedi cael sicrwydd bod proses briodol a chadarn wedi cael ei dilyn wrth ddatblygu'r fframwaith, gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid a chraffu gan Bwyllgorau. Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i gyhoeddi'r fframwaith rheoleiddio.

**Golygiad:** Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd y bwriad i'w gyhoeddi yn y dyfodol.

## 8. Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol

8.1 Ystyriodd y Bwrdd Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol Medr a chymeradwyodd y cynnig i'w gyflwyno yn unol â gofynion statudol.

**Golygiad:** Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd y bwriad i'w gyhoeddi yn y dyfodol.

## 9. Rhoi cyllideb ddrafft 2026-27 ar waith

9.1 Ystyriodd y Bwrdd gynigion ynghylch defnyddio cyllid ar gyfer 2026-27. Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion a gyflwynwyd, a byddai un elfen yn cael ei hailystyried a'i hailgyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Golygiad:** Cadwyd cynnwys manwl yn ôl yn sgil amharu ar y gallu i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol; a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

## 10. Adroddiadau Chwarterol

10.1 Cyflwynwyd yr adroddiad chwarterol ar berfformiad corfforaethol i'r Bwrdd, a nodwyd y wybodaeth a roddwyd.

**Golygiad:** Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd buddiannau masnachol a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

## 11. Unrhyw fater arall

11.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## 12. Dyddiad y cyfarfod nesaf

12.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 14 Mai 2026.

**Papurau a gyflwynwyd er gwybodaeth:**

## 13. Adroddiad ar waith Medr i fonitro dyletswydd Prevent (Medr/26/13)

## 14. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2025 (Medr/26/14)

## 15. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2026 (Medr/26/15)

## 16. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 15 Medi 2026 (Medr/26/16)

**Trafodaethau strategol**

## 17. Paratoi ar gyfer y llywodraeth nesaf

17.1 Rhoddwyd cyflwyniad allanol i'r Bwrdd ar etholiad y Senedd a oedd ar ddod, a thrafodwyd y goblygiadau posibl i'r sector addysg drydyddol a gweithgarwch ymgysylltu Medr yn y dyfodol.

Golygiad: Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd sensitifrwydd yn ymwneud â materion cyhoeddus, buddiannau masnachol a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

## 18. Galwad am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

18.1 Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniad i'r Bwrdd ar ddyfodol addysg drydyddol yng Nghymru, a thrafodwyd cyfleoedd i helpu i ddatblygu'r system addysg drydyddol yn y dyfodol.

Golygiad: Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd sensitifrwydd yn ymwneud â materion cyhoeddus, buddiannau masnachol a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol